

Fframwaith Arolygu Arsylwadau Byr (SOFI): Methodoleg Ansawdd Bywyd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Beth yw SOFI2?

Adnodd arolygu yw SOFI2 (Fframwaith Arolygu Arsylwadau Byr) y gall arolygwyr AGC ei ddefnyddio i ddangos barn ynghylch sut beth yw bywyd i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Mae yn ein helpu i ganolbwyntio ar eu llesiant.

Cyflwynodd AGC y fethodoleg, a ddatblygwyd gan Brifysgol Bradford, yn 2012 fel rhan o'r rhaglen i foderneiddio ein harolygiadau. Ar hyn o bryd rydym yn defnyddio SOFI2, sef ail argraffiad yr adnodd. Adnodd trwyddedig yw hwn sy'n destun cod caeth o ran y defnydd a wneir ohono

Beth yw ei rôl mewn arolygiadau?

Yn ystod arolygiadau, mewn gwasanaethau, rydym yn ystyried llesiant pobl, gan gadarnhau bod darparwyr yn hybu canlyniadau cadarnhaol. Nid ydym yn ei ddefnyddio os mai dim ond nifer bach o bobl sy'n byw yno neu sy'n ymweld â'r safle.

Caiff SOFI2 ei ddefnyddio pan nad yw'n bosibl i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ddisgrifio'r gofal a'r driniaeth y maent yn eu cael, er enghraifft, pobl â dementia neu blant ifanc. Mae'n rhoi cipolwg a gall ei ddefnyddio'n hyblyg er mwyn cofnodi achosion o ryngweithio ac ymgysylltu ar gyfer grŵp o unigolion neu ar sail un i un.

Mae SOFI2 yn rhoi tystiolaeth wirioneddol i ni ynglŷn â'r ffordd y mae pobl, a'r rhai sy'n gweithio gyda nhw, yn ymgysylltu â'i gilydd, a'r effaith y gall hyn ei chael ar eu hwyliau a'u llesiant

Sut y mae SOFI2 yn gweithio yn ystod yr arolygiad?

Mae arolygwyr sy'n defnyddio SOFI2 yn arsylwi ar rhwng un a phump o bobl sy'n cael gofal dros gyfnodau mesuredig o amser. Maent fel arfer yn gwneud cofnod bob pum munud, gan nodi pa mor fodlon yw'r person, p'un a ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgaredd neu yn ymgysylltu â phobl eraill, ac ansawdd unrhyw ryngweithio â'r staff.

Drwy olrhain sampl o bobl dros gyfnod o amser, ceir darlun clir o lesiant pobl a'r gofal y maent yn ei gael.

Er mwyn defnyddio SOFI2 mae'n rhaid i arolygwyr ddilyn cwrs hyfforddi deuddydd. Mae'r defnydd o ddulliau arsylwi eisoes wedi gwella ansawdd ein tystiolaeth a'n hadborth uniongyrchol i staff a rheolwyr. Mae SOFI2 yn ddefnyddiol iawn o ran tynnu sylw at ethos ac arferion da neu nodi arferion gwael, lle mae hyn yn bodoli.

Rhagor o wybodaeth

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau pellach, cysylltwch â agc@llyw.cymru.